

CROESO I SASIWN Y DE Eglwys Y Gopa, Pontarddulais

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at groesawu'r Sasiwn i Eglwys y Gopa, Pontarddulais ar Hydref 14eg. Saif yr Eglwys ar yr ochr mwyaf orllewinol o Henaduriaeth Morgannwg/Llundain rhyw filltir o'r ffin â Henaduriaeth Myrddin.

Sefydlwyd yr Achos dros dau can mlynedd a hanner yn ôl yn 1740 pan ymwelodd Howel Harris â'r fro. Ar ei ail ymweliad y flwyddyn honno cafodd ei erlid gan y Sgweiar a'i gŵn a rhoddwyd lloches iddo yn nhyddyn Llandremor Uchaf, ac yno y sefydlwyd y seiat gyntaf.

Diolchwn i Dduw am y cewri a fu yn gyfrwng bendith yn y gorffennol, pobl megis Harris, Williams Pantycelyn a Daniel Rowlands. Fe sicraodd yr Arglwydd bod tystiolaeth iddo yn yr ardal hon. Ein braint ni heddiw, ac yn wir ein cyfrifoldeb yw sicrhau fod y dystiolaeth hon yn parhau yn y cyffiniau.

Ardal ddiwydiannol oedd Pontarddulais gyda'i gweithfeydd alcan a glo. Erbyn heddiw mae'r hen ddiwydiannau wedi diflannu ac ar eu safleoedd adeiladwyd stadau eang o dai newydd, modern.

Eglwys o tua 75 o aelodau yw'r Gopa bellach. Cynhelir dau gyfarfod pregethu ar y Sul ac yn ystod tymor y Gaeaf a'r Gwanwyn cynhelir Cwrdd Gweddi a Dosbarth Beiblaidd. Yn ychwanegol bydd Cymdeithas yr Eglwys yn cwrdd yn fisol pryd trefnir rhaglen amrywiol ei naws. Bydd Clwb y Plant yn cwrdd yn wythnosol yn Ebeneser, y gangen, pan fyddwn yn croesawu tua pymtheg o blant i'n plith. Yn ychwanegol at y cyfarfodydd hyn bydd y chwiorydd yn ymuno yn fisol i gyd-addoli mewn cyfarfodydd a drefnir gan Eglwys Rhyddion y dref (Adran y Chwiorydd).

Fel yr awgryma'r enw saif y capel ar ben ucha'r dre, ac yn ôl yr hanes roedd y brif ffordd o Loegr i orllewin Cymru yn mynd heibio'r



Capel. Ein gweddi daer a'n dyhead yw gweld eneidiau lawer yn tramwyo'r ffordd hon eto i geisio gwin ac olew Calfari.

Edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn gynrychiolwyr ac ymwelwyr, ac yn fwy na dim gweddiwn bydd bendith Duw ar yr holl weithgareddau.

Roedd yr emynydd, Dafydd William, Llandeilo Fach, yn un o sylfeiniwyr y Seiat yn y Gopa Fach ac yng nghyfarfod yr hwyr disgwyliwn Parch. J. E. Wynne Davies, B.A., B.D., Aberystwyth, i'n hannerch ar ei fywyd a'i waith. Yn ystod yr oedfa hon fe geir datganiadau gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Gŵyr.

Gweddiwn felly gyda Dafydd William:

O Arglwydd, dyro awel,
A honno'n awel gref,
I godi f'ysbryd egwan
O'r ddaear hyd y nef;
Yr awel sy'n gwasgaru
Y tew gymylau mawr;
Mae f'enaid am ei themlo:
O'r nefoedd doed i lawr.

Annie Derrick

ORDEINIO A LLONGYFARCH

Henaduriaeth Dyffryn Clwyd



Rhai a gymerodd ran yn y Gwasanaeth:

Rhes gefn, chwith i'r dde: Dilys Hughes, cyn-Lywydd yr Henaduriaeth; Trefor Jones; Parch. Brian Huw Jones, Llywydd yr Henaduriaeth; Eilir Edwards, Blaenor newydd i Fethania, Ruthun; Iwan Vaughn Evans, Blaenor newydd i Fethania, Rhuthun.

Rhes flaen, chwith i'r dde: Bethan Catrin Roberts, Blaenor newydd i Gapel Derwen; Parch. Megan Williams, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd; Eirlys Thomas, Blaenor newydd i Fethania, Rhuthun; Huw McKee, Blaenor newydd i Fethania, Rhuthun.

Yn y gwasanaeth llongyfarchwyd y canlynol:

Gweinidogion: 60 mlynedd – Y Parchgn. D. Hughes Jones a Huw Jones.
50 mlynedd – Y Parch. T. L. Williams.

Blaenoriaid: 40 mlynedd – R. J. Davies, Soar, Llanfair T.H.; J. Arthur Jones, Y Waen, Bodffar.i

Y Cyfarfodydd Cyhoeddus

Bore Mercher, 14 Hydref, 2009
am 11.30 o'r gloch

Sacrament Swper yr Arglwydd

Nos Fercher, 14 Hydref, 2009
am 7.00 o'r gloch

*Bywyd a Gwaith yr emynydd
Dafydd William, Llandeilo Fach*

I annerch:
Y Parch. J. E. Wynne Davies, B.A., B.D.,
Aberystwyth.